# SL(5)607 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol' ac i roi'r cyfyngiadau hynny ar waith yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y diwygiadau hyn:

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', a rhoi'r cyfyngiadau hynny ar waith yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Effaith hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i bobl yn yr ardal wisgo gorchudd wyneb (yn ddarostyngedig i rai esemptiadau ac eithriadau) os ydynt mewn mangreoedd agored; ac
- ei gwneud yn ofynnol i'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n cael eu cyflwyno gan y diwygiadau hyn ar gyfer ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael eu hadolygu ar 24 Medi neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl hynny.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol".

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Mae'r Rheoliadau hyn, yn rheoliad 2(6)(b)(iii), yn cyfeirio at reoliadau 18(6) a 18(6ZA)(a) yn y fersiwn Saesneg ond mae'r fersiwn Gymraeg ond yn cyfeirio at y paragraffau yn y rheoliad hwnnw; '(6) neu (6ZA)(a)'. Mae'r rheoliad hwn yn diwygio rheoliad 20(3)(a) o'r prif Reoliadau. Mae'r anghysondeb yn golygu nad yw fersiwn Gymraeg y rheoliad diwygiedig mor eglur â'r fersiwn Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wybod i Aelodau'r Senedd, mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn ystod prynhawn 7 Medi, o'r bwriad i osod y cyfyngiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn gan y cyfryngau."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn tynhau'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid-19 yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn dod o fewn ystyriaethau hawliau dynol eto ar gyfer hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 / Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd ac yn erbyn y prawf 'cymesuredd' angenrheidiol.

Yn ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru, yn y Memorandwm Esboniadol, wedi ystyried hawliau dynol ymhellach a rhoi eglurhad, ac mae'n fodlon gweld, yn benodol, fod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cyfnod adolygu ar gyfer y cyfyngiadau a osodwyd gan y Rheoliadau hyn, a hynny yn ôl yr amserlen a nodir yn y Memorandwm Esboniadol isod:

*"Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys i ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardal neu fynd iddi yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. Mae'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn mangreoedd agored yn ddarostyngedig i nifer o esemptiadau ac eithriadau. Yn ychwanegol, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 24 Medi, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, a'u hadolygu o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol, ond nid oes angen ymateb i'r ddau bwynt ynghylch rhinweddau**.**

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.